Partners in UK offshore wind

**MONA OFFSHORE WIND LTD**

**RHIF CYFEIRNOD YR AROLYGIAETH CYNLLUNIO: EN010137**

**RHEOL 13(6) RHEOLAU CYNLLUNIO SEILWAITH (TREFN ARCHWILIO) 2010**

**HYSBYSIAD AM WRANDAWIADAU MATERION PENODOL A GWRANDAWIADAU LLAWR AGORED**

Hysbysir drwy hyn y bydd yr Awdurdod Archwilio (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (yr "**Ysgrifennydd Gwladol**")) yn cynnal y Gwrandawiadau canlynol ar y dyddiadau, yr amseroedd ac yn y lleoliadau a nodir isod, ar gyfer yr archwiliad o'r cais a wnaed gan Mona Offshore Wind Ltd (yr "**Ymgeisydd**") o Building B, Chertsey Road, Sunbury on Thames, UK, TW16 7BP am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ("**DCO**") o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (y "**Cais**"). Cyflwynodd yr Ymgeisydd y Cais i'r Ysgrifennydd Gwladol, D/O yr Arolygiaeth Gynllunio ar 22/02/2024 a chafodd ei dderbyn ar 21/03/2024. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi'r cyfeirnod canlynol ar gyfer y Cais: EN010137.

Cais am gydsyniad datblygu i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Fferm Wynt Alltraeth Mona arfaethedig (y "**Prosiect**") oddi ar arfordir Gogledd Cymru yw'r cais. Mae'r Prosiect yn cynnwys hyd at 96 generadur tyrbinau gwynt a seilwaith cysylltiedig ar y tir ac ar y môr. Bydd y Prosiect yn cael ei leoli yn nyfroedd Cymru ac o fewn Siroedd Dinbych a Chonwy.

Penodwyd yr Awdurdod Archwilio ar 3 Ebrill 2024 i archwilio'r Cais a bydd yr Archwiliad yn dechrau yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae manylion y Cyfarfod Rhagarweiniol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 |
| Proses Gofrestru: | 09:30am |
| Amser cychwyn cyfarfod: | 10.00am |
| Lleoliad: | Digwyddiad cymysg yn Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB a thrwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw. |
| Mynychwyr: | Pobl wedi'u gwahodd sydd wedi cofrestru ymlaen llaw |

Ceir mwy o fanylion am y Cyfarfod Rhagarweiniol a sut i gofrestru yn y llythyr Rheol 6 (gweler isod).

Dilynir hyn gan:

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser cychwyn | Lleoliad a chyfarwyddiadau ymuno |
|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024** | **Gwrandawiad Mater Penodol 1 (ISH1)** ar Gwmpas y Datblygiad | **Cofrestru a seddi ar gael yn y lleoliad o:**<br><br>**13.30**<br><br>**Trefniadau Cofrestru Rhithiol o:**<br><br>**13.30**<br><br>**Gwrandawiad yn cychwyn:**<br><br>**14.00** | Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB<br><br>ac<br><br>Yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw |
| **Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024** | **Gwrandawiad Mater Penodol 2 (ISH2)** ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac Alltraeth a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) | **Cofrestru a seddi ar gael yn y lleoliad o:**<br><br>**09.00**<br><br>**Trefniadau Cofrestru Rhithiol o:**<br><br>**09.00**<br><br>**Gwrandawiad yn cychwyn:**<br><br>**09.30** | Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB<br><br>ac<br><br>Yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw |
| **Dydd Iau 18 Gorffennaf 2024** | **Gwrandawiad Mater Penodol 2 (ISH2)** (parhad, os yn angenrheidiol) ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac Alltraeth a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO) | **Cofrestru a seddi ar gael yn y lleoliad o:**<br><br>**09.00**<br><br>**Trefniadau Cofrestru Rhithiol o:**<br><br>**09.00** | Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB<br><br>ac<br><br>Yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwrandawiad yn cychwyn:**<br><br>**09.30** | Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw |
| **Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024** | **Gwrandawiad Llawr Agored 1 (OFH1)** | **Cofrestru a seddi ar gael yn y lleoliad o:**<br><br>**09.00**<br><br>**Trefniadau Cofrestru Rhithiol o:**<br><br>**09.00**<br><br>**Gwrandawiad yn cychwyn:**<br><br>**09.30**<br><br>Gwrandawiad hanner diwrnod yw hwn a nod yr Awdurdod Archwilio yw gorffen y trafodaethau erbyn tua 13.00 | Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB<br><br>ac<br><br>Yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw |

**Gwybodaeth am y gwrandawiadau**

Mae manylion ynghylch mynychu a siarad yn y gwrandawiadau wedi'u nodi yn hysbysiad Rheol 13(3) yr Awdurdod Archwilio sydd ar gael yma:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010137/EN010137-000583-MNOW%20-%20Rule%206%20-%20Bilingual%20Holding%20Document.pdf

Dylai Partïon â Diddordeb sy'n dymuno siarad yn y Gwrandawiadau a restrir uchod hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol (dydd Mawrth 25 Mehefin 2024) drwy e-bostio blwch post y prosiect (ceir dolen ar dudalen E2 y llythyr Rheol 6).

Bydd y Gwrandawiadau hefyd yn cael eu cynnal fel digwyddiadau rhithwir, a bydd modd ymuno â nhw trwy unrhyw borwr rhyngrwyd safonol neu, fel arall, dros y ffôn. Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw. Bydd ffrydiau byw hefyd yn cael eu darparu ar gyfer pob Gwrandawiad a bydd y ddolen ar gyfer hyn ar gael ar y diwrnod yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-mona/

Cysylltwch â Thîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio dros y ffôn (0303 444 5000) neu drwy e-bost (monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk) os oes angen unrhyw gefnogaeth neu gymorth arnoch i fynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau, naill ai'n rhithwir neu'n bersonol.

Sylwch y bydd Gwrandawiadau'n cael eu recordio, a bydd y recordiadau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen Prosiect Gwynt Alltraeth Mona ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl pob Gwrandawiad.

Bydd rhagor o wybodaeth am y Gwrandawiadau, yr archwiliad o'r Cais, yr amserlen lawn (a'r diwygiadau), sut a phryd i gofrestru i siarad yn y Gwrandawiadau, a sut a phryd i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig hefyd ar gael ar dudalen y Prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (dolen uchod), yn y llythyr Rheol 6 neu drwy gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio (manylion uchod).

**Crynodeb o'r Cais a'r Prosiect**

Bydd y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn cynnwys y canlynol:

- adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Prosiect;
- caffael tir yn orfodol gan gynnwys hawliau mewn tir neu dros dir sy'n ofynnol at ddibenion y Prosiect, a thir sy'n ofynnol i hwyluso'r Prosiect neu sy'n gysylltiedig ag ef;
- cymhwyso a/neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect, gan gynnwys y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol; a
- darpariaethau, caniatadau neu gydsyniadau pellach sy'n angenrheidiol a/neu'n gyfleus gan gynnwys trwydded forol dybiedig.

Mae'r Prosiect yn cynnwys fferm wynt alltraeth arfaethedig ym Môr Iwerddon, a seilwaith cysylltiedig ar y môr ac ar y tir. Disgwylir i'r fferm wynt gynnwys hyd at 96 generadur tyrbinau gwynt. Ar ei bwyntiau agosaf at y lan, mae ardal yr aráe yn 28.8 km o arfordir gogledd Cymru, 46.9 km o arfordir gogledd-orllewin Lloegr, a 46.6 km o Ynys Manaw. Bydd coridor y ceblau allforio ar y môr tua 46 km o hyd a bydd y coridor ceblau allforio ar y tir (gan gynnwys coridor ceblau 400 kV) tua 16 km o hyd.

Bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi'r canlynol:

a) Adeiladu a gweithredu hyd at 96 generadur tyrbinau gwynt ar y môr a'u sylfeini;
b) Adeiladu hyd at bedwar platfform is-orsaf ar y môr (OSP) a'u sylfeini;
c) Adeiladu rhwydwaith o geblau rhyng-aráe o dan y môr sy'n cysylltu'r generaduron tyrbinau gwynt a rhwydwaith o geblau rhyng-gysylltu sy'n cysylltu'r platfformau is-orsaf ar y môr;
d) Gosod hyd at bedair cylched ceblau allforio o dan y môr i drosglwyddo'r trydan a gynhyrchir gan y generaduron tyrbinau gwynt i'r lan. Mae coridor ceblau allforio ar y môr y Prosiect yn ymestyn tua'r de-ddwyrain o ardal yr aráe i'r lanfa arfaethedig yn Llanddulas yng Nghonwy;
e) Adeiladu hyd at bedwar porth cysylltu trosiannol ar y lanfa sy'n cysylltu'r ceblau ar y môr â'r ceblau ar y tir;
f) Gosod hyd at bedair cylched ceblau allforio tanddaearol ar y tir sy'n cysylltu o'r pyrth cysylltu trosiannol ar y lanfa i is-orsaf ar y tir y prosiect;
g) Adeiladu a gweithredu is-orsaf newydd ar y tir ar gyfer y prosiect i'r de o Barc Busnes Llanelwy a Ffordd Glascoed yn Sir Ddinbych;
h) Gosod hyd at ddwy gylched ceblau allforio tanddaearol ar y tir sy'n cysylltu'r is-orsaf arfaethedig ar y tir ag is-orsaf y National Grid ym Modelwyddan er mwyn gallu trosglwyddo'r pŵer i'r National Grid; a
i) Gwaith i gysylltu'r Prosiect ag is-orsaf National Grid ym Modelwyddan yn Sir Ddinbych.

Byddai'r Gorchymyn hefyd yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, buddiannau mewn tir a hawliau dros dir, a'r pwerau i ddefnyddio tir yn barhaol a dros dro ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu fferm wynt ar y môr.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol -** Mae'r Prosiect yn ddatblygiad y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn berthnasol iddo fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017. O ganlyniad, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno Datganiad Amgylcheddol fel rhan o'r Cais. Mae Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol hefyd ar gael.

**Gweld y Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu**

Mae holl ddogfennau'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, gan gynnwys y ffurflen gais a'r holl gynlluniau a mapiau, i'w gweld yn rhad ac am ddim ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio drwy gydol y cyfnod sylwadau perthnasol a'r cyfnod archwilio yma ar dudalen prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-mona/

Gallwch hefyd gael gafael ar y fersiynau ar-lein hyn o ddogfennau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Mona yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau isod. Cysylltwch â'r lleoliadau yn uniongyrchol i gadarnhau beth yw eu horiau agor ac unrhyw ofynion o ran bwcio neu gofrestru a allai fod eu hangen i gael gafael ar y dogfennau'n ddigidol ar y cyfrifiaduron sydd ar gael yn y lleoliadau priodol.

| Lleoliad | Amseroedd Agor | Rhif cyswllt |
|---|---|---|
| Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA | Maw: 9.30-12.30pm a 2-5pm, Mer, Gwe, Sad: 9.30-12.30pm, Iau: 2-7pm | 01407 830145 |
| Llyfrgell Gyhoeddus Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT | Llun, Maw, Iau: 9:30-6pm, Mer, Gwe: 9:30-5pm Sad: 9:30-1pm | 01248 353479 |
| Llyfrgell Henry Bloom Noble, 8 Duke Street, Douglas, Ynys Manaw IM1 2AY | Llun-Mer a Gwe: 8.30-5pm, Iau: 10-7pm, Sad: 9-4pm | 01624 696461 |
| Llyfrgell Llandudno, Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP | Llun-Mer a Gwe: 9-5.30pm, Iau: 10-7pm, Sad: 9:30-3pm | 01492 574010 |
| Llyfrgell y Dref – Ramsey, Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT | Llun-Iau a Sad: 9-4:30pm, Gwe: 9-4pm | 01624 810146 |
| Llyfrgell, Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydol y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl LL18 3AA | Llun: Ar gau, Maw: 10-5pm, Mer: 12-5pm, Iau: 10-5pm, Gwe: 10-2pm, Sad: 9:30-12.30pm | 01745 353814 |

Os oes angen dull arall o archwilio'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu arnoch neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, gan gynnwys sut mae cael gafael ar y dogfennau ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio, ffoniwch yr Ymgeisydd ar 0800 860 6263 neu anfonwch e-bost at info@monaoffshorewind.com

Gall yr Ymgeisydd hefyd ddarparu unrhyw un o'r dogfennau yn ôl yr angen ar USB (yn rhad ac am ddim). Gellir hefyd ddarparu copi caled o'r Crynodeb Annhechnegol ar gais rhesymol. Codir ffi hyd uchafswm o £7,000 a TAW am ddarparu copïau caled o'r Datganiad Amgylcheddol, er mwyn talu am y costau argraffu a phostio.

Os oes angen dulliau amgen o archwilio'r Dogfennau Cais (er enghraifft, mewn fformat print bras, sain neu braille), cysylltwch â'r Ymgeisydd gan ddefnyddio'r manylion isod.

Mae rhagor o wybodaeth am Mona ar gael ar wefan y prosiect: https://www.morganandmona.com neu drwy gysylltu â'r tîm ar 0800 860 6263 neu drwy e-bost info@monaoffshorewind.com